*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 74(5) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2016 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rhaid i berson sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd i blant o dan wyth oed fod wedi ei gofrestru â Gweinidogion Cymru.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, a wneir o dan adran 19(4) o'r Mesur, yn diwygio adran 19 o'r Mesur i estyn y gofyniad i gofrestru i bersonau sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd i blant o dan ddeuddeng oed. Mae hefyd yn gwneud diwygiad au canlyniadol.

Mae erthyglau 7 a 11 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod person sydd wedi ei gofrestru yn union cyn 1 Ebrill 2016 i ofalu am blant o dan wyth oed neu i ddarparu gofal iddynt i gael ei drin ar 1 Ebrill 2016 ac ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi ei gofrestru i ofalu am blant o dan ddeuddeng oed neu i ddarparu gofal iddynt.

Mae erthyglau 8 a 12 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys pan fo gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd yn torri ei amodau cofrestru o ganlyniad i estyn cofrestriad.

O dan erthyglau 9 ac 13 o'r Gorchymyn hwn, mae ceisiadau i gofrestru y mae Gweinidogion Cymru yn eu cael cyn 1 Ebrill 2016 i gael eu trin fel pe baent wedi eu cael ar 1 Ebrill 2016.

Mae erthygl 14 yn darparu nad yw estyn cofrestriad yn erthygl 3 yn effeithio ar atal cofrestriad person dros dro.

Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 74(5) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2016 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016

*Gwnaed* ***xxxx***

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 19(4) a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**).

Yn unol ag adran 74(5) o'r Mesur, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad cyn iddo gael ei wneud.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2016;

(**1**) 2010 mccc 1.

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; ac

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**1**).

### Diwygio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**3.** Yn adran 19 o'r Mesur (ystyr "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant")—

(a) yn is-adran (2), yn lle "wyth" rhodder "ddeuddeng";

(b) yn is-adran (3), yn lle "wyth" rhodder "ddeuddeng".

### Diwygio'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007

**4.** Yn erthygl 5(3)(b) (gofal plant cymwys) o'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007(**2**) yn lle "wyth mlwydd oed" rhodder "deuddeng oed".

### Diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

**5.** Yn rheoliad 3(3) o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(**3**) yn lle "o dan wyth oed" rhodder "o dan ddeuddeng oed".

### Darpariaeth drosiannol

### Gwarchodwyr plant

**6.** Mae'r darpariaethau yn erthyglau 7 i 9 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i berson sydd wedi ei gofrestru'n warchodwr plant yn union cyn y dyddiad trosglwyddo gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o'r Mesur.

### Cofrestru

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae person sydd wedi ei gofrestru'n warchodwr plant i blant o dan wyth oed i gael ei drin ar y dyddiad trosglwyddo ac ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi gwneud cais i gofrestru i ofalu am blant o dan ddeuddeng oed a bod y cais hwnnw wedi ei ganiatáu.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn cysylltiad â pherson a oedd, cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi gofyn i Weinidogion Cymru ganslo

---

(**1**) O.S. 2010/2574 (Cy.214).
(**2**) O.S. 2007/226 (Cy. 20).
(**3**) O.S. 2002/327 (Cy.40).

ei gofrestriad yn warchodwr plant o dan Ran 2 o’r Mesur.

**Amodau cofrestru**

**8.**—(1) Mae’r erthygl hon yn gymwys pan fo person, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn darparu gwasanaeth gwarchod plant o dan amgylchiadau a fyddai, pe bai’n cael ei ddarparu ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn groes i amodau cofrestru’r person hwnnw a osodwyd o dan adran 29 o’r Mesur oherwydd effaith erthygl 7(1) o’r Gorchymyn hwn.

(2) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo yn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru i amrywio amodau cofrestru cyn y dyddiad trosglwyddo, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais hwnnw o fewn cyfnod o bum mis i’r dyddiad trosglwyddo.

(3) Yn ystod y cyfnod a bennir ym mharagraff (2)—

(a) nid yw person sydd wedi cyflwyno cais i amrywio amodau cofrestru yn agored i’w erlyn o dan adran 29(4) o’r Mesur pan fo’r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 7(1) o’r Gorchymyn hwn;

(b) nid yw adran 31(2)(b) o’r Mesur yn gymwys pan fo’r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 7(1) o’r Gorchymyn hwn.

**Ceisiadau i gofrestru: ceisiadau nad ydynt wedi eu penderfynu**

**9.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gwneud cais i gofrestru’n warchodwr plant ond nad yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais y person.

(2) Mae gan gais a wneir cyn y dyddiad trosglwyddo yr un effaith â chais a wneir ar y dyddiad trosglwyddo.

**Darparwyr gofal dydd**

**10.** Mae’r darpariaethau yn erthyglau 11 i 13 o’r Gorchymyn hwn yn gymwys i berson sydd wedi ei gofrestru’n ddarparwr gofal dydd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o’r Mesur.

**Cofrestru**

**11.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae person sydd wedi ei gofrestru’n ddarparwr gofal dydd i blant o dan wyth oed i gael ei drin ar y dyddiad trosglwyddo ac ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi gwneud cais i gofrestru i ddarparu gofal i blant o dan ddeuddeng oed a bod y cais hwnnw wedi ei ganiatáu.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn cysylltiad â pherson a oedd, cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi gofyn i Weinidogion Cymru ganslo ei gofrestriad yn ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur.

### Amodau cofrestru

**12.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn darparu gofal dydd i blant o dan amgylchiadau a fyddai, pe bai'n cael ei ddarparu ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn groes i amodau cofrestru'r darparwr gofal dydd hwnnw a osodwyd o dan adran 29 o'r Mesur oherwydd effaith erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwn.

(2) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo yn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru i amrywio amodau cofrestru cyn y dyddiad trosglwyddo, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais hwnnw o fewn cyfnod o bum mis i'r dyddiad trosglwyddo.

(3) Yn ystod y cyfnod a bennir ym mharagraff (2)—

(a) nid yw person sydd wedi cyflwyno cais i amrywio amodau cofrestru yn agored i'w erlyn o dan adran 29 o'r Mesur pan fo'r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwn; a

(b) nid yw adran 31(2)(b) o'r Mesur yn gymwys pan fo'r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwn.

### Ceisiadau i gofrestru: ceisiadau nad ydynt wedi eu penderfynu

**13.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gwneud cais i gofrestru'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur ond nad yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais y person.

(2) Mae gan gais a wneir cyn y dyddiad trosglwyddo yr un effaith â chais a wneir ar y dyddiad trosglwyddo.

### Atal dros dro: gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd

**14.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo—

(a) yn cael ei atal dros dro gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 40 o Reoliadau 2010;

(b) yn cael ei atal dros dro yn wirfoddol o dan reoliad 46 o Reoliadau 2010.

(2) Nid yw gweithredu erthyglau 7(1) a 11(1) yn y Gorchymyn hwn yn effeithio ar atal cofrestriad person dros dro.

(3)

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad